Y CRIW
Mentrus
Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd

Cyfnod Allweddol 2

Gweithgaredd 11:
Gallwn ni ei wneud e

Amcan Dysgu
Cynnal a chwblhau tasg fenter gan ddefnyddio amrediad o sgiliau trefnu.

Nodweddion Entrepreneuriaeth

Agwedd
- Hunan-hyder
- Penderfyniad

Cysylltiadau
- Gweithio gyda Phobl Eraill

Trefniadaeth
- Cynllunio
- Rheoli Adnoddau

Gweithgareddau dysgu
Erbyn hyn dylai'r disgyblion fod yn barod i wneud y cynnyrch/darparu'r gwasanaeth a dechrau masnachu.

Mae'r disgyblion yn cynllunio'r trefniadau ymarferol ar gyfer eu prosiect menter ac yn cytuno ac yn dyrannu tasgau.

Mae'r disgyblion yn dechrau masnachu, gan werthu eu cynnyrch neu'n cynnal eu gwasanaeth.

Mae'r disgyblion yn cadw cofnod o werthiannau/ac unrhyw arian sy'n cael ei dderbyn.

Mae'r disgyblion yn gwneud cofnod ffotograffaidd o'u prosiect menter.

Ar ôl y gweithgaredd menter cynhaliwch sesiwn dadbriffio dosbarth i drafod beth mae pob grŵp wedi ei gyflawni a beth arall mae angen ei wneud.

Gweithgaredd 11:
Gallwn ni ei wneud e

Cyfnod Allweddol 2

Canlyniad dysgu

Bydd y disgyblion wedi datblygu sgiliau cynllunio syml a gweithio gyda'i gilydd mewn timau gyda chyfrifoldebau a gafodd eu cytuno i gyflawni a chwblhau tasg fenter.

Adnoddau mae eu hangen

- Cynnyrch
- Arian parod am newid
- Til / cofrestr arian syml
- Camera digidol

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

1. Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Llythrennedd

Llafaredd ar draws y cwricwlwm

- Cydweithredu a thrafod.

Rhifedd

Defnyddio sgiliau rhif

Rheoli arian e.e.

- cynllunio ac olrhain arian ac arbedion drwy gadw cofnodion cywir
- sylweddoli bod cyllidebu yn bwysig
- defnyddio'r termau elw a cholled mewn gweithgareddau prynu a gwerthu a gwneud cyfrifiadau am hynny.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government